# Polisi Rhyddid Gwybodaeth

| Adolygwyd | Dyddiad | Diben ei Gyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb |
|---|---|---|---|
| 1. | Tachwedd 2005 | Cyhoeddiad Cyntaf | |
| 2. | 15 Mehefin 2012 | Diwygiwyd a Diweddarwyd | |
| 3. | 5 Hydref 2015 | Diwygiwyd a Diweddarwyd | 1 Rhagfyr 2015 |
| 4. | 1 Chwefror 2016 | Mân newid a gymeradwywyd | |
| 5. | 3 Mehefin 2019 | Diwygiwyd a Diweddarwyd | |
| 6. | 19 Gorffennaf 2021 | Diwygiedig a diweddarwyd: newid Swyddog Rhyddid Gwybodaeth | |
| 7. | 27 Tachwedd 2024 | Adolygiad a mân ddiweddariadau, cymeradwywyd gan y Pwyllgor Cydymffurfiaeth | |

| Swyddog Polisi | Yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol | Ysgrifennydd y Brifysgol | Pwyllgor Cydymffurfiaeth | 27 Tachwedd 2024 |

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd.*

**Polisi Rhyddid Gwybodaeth**

Mae Prifysgol Bangor yn cymryd ei chyfrifoldebau dros reoli gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gwbl o ddifrif. Yn y ddogfen hon ceir fframwaith y polisi ar gyfer cyflawni ac archwilio'r rheolaeth hon mewn modd effeithiol.

1. **Cwmpas y Polisi**

Diben y polisi hwn yw sicrhau y cedwir at ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac yn neilltuol:

- bod swm sylweddol y wybodaeth a gyhoeddir yn rheolaidd am y brifysgol ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn ac wedi ei fynegeio trwy gynllun cyhoeddi a chanllaw cyhoeddi'r brifysgol;
- bod gwybodaeth arall nad yw wedi ei chynnwys yn y cynllun cyhoeddi ar gael yn hwylus os gofynnir amdani ac yr ymdrinnir yn ddi-oed â cheisiadau o'r fath; ac
- mewn achosion pan mae gwybodaeth wedi ei heithrio, rhoddir ystyriaeth ar y lefel briodol yn y brifysgol a ddylid rhyddhau'r wybodaeth.

**2. Cyfrifoldebau**

**[a] Cyfrifoldebau'r Brifysgol**

Mae'r brifysgol yn gyfrifol am sefydlu polisïau a threfniadau, ac am sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael, er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**[i] Y Pwyllgor Cydymffurfiaeth**

Y Pwyllgor Cydymffurfiaeth sy'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu ac adolygu Polisi Rhyddid Gwybodaeth y brifysgol. Ysgrifennydd y Brifysgol sy'n cadeirio'r Pwyllgor Cydymffurfiaeth sy'n adrodd i Fwrdd Gweithredol y brifysgol.

**[ii] Swyddog Rhyddid Gwybodaeth y Brifysgol**

- Bydd y Grŵp Cydymffurfiaeth yn enwebu person priodol i weithredu fel Swyddog Rhyddid Gwybodaeth y brifysgol; bydd yr unigolyn hwnnw'n ddigon gwybodus ac ar lefel ddigon uchel yn y brifysgol.
- Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol yn Swyddfa'r Is-ganghellor yw'r Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a enwebwyd gan y brifysgol.
- Bydd y brifysgol yn gwneud trefniadau i roi gwybod i'r holl staff, myfyrwyr, ymgynghorwyr, contractwyr a gwirfoddolwyr pwy yw Swyddog Rhyddid Gwybodaeth y brifysgol a bydd hefyd yn tynnu eu sylw at y polisi hwn a'r ddogfennaeth gysylltiedig. Y Swyddog Rhyddid Gwybodaeth sy'n gyfrifol am lunio arweiniad a hyrwyddo cydymffurfiad â'r polisi hwn er mwyn sicrhau bod modd cael gafael ar wybodaeth yn rhwydd, yn gyflym ac mewn modd priodol.
- Mae gan y Swyddog Rhyddid Gwybodaeth yr hawl i fynd at yr holl ddogfennau perthnasol (ar eu ffurf wreiddiol, heb eu golygu) yn ymwneud â chais cydymffurfio â'r gyfraith, a'r Swyddog Rhyddid Gwybodaeth (mewn ymgynghoriad, pan fo angen, â'r uwch swyddogion perthnasol) a fydd yn gwneud y penderfyniadau ynglŷn â pha wybodaeth a gaiff ei rhyddhau neu ei heithrio.

**ii) Y Person Cymwys**

At ddibenion adran 36, person cymwys y brifysgol yw’r Is-ganghellor, yn rhinwedd adran 36(5)(o)(iii).

Ym Mhrifysgol Bangor gall yr Is-ganghellor, neu, yn ei absenoldeb, y Dirprwy i’r Is-ganghellor, gyflawni'r swyddogaeth o ran defnyddio eithriad Adran 36.

**[b] Cyfrifoldebau Dirprwy Is-gangellorion/Penaethiaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol**

Mae dirprwy is-gangellorion / penaethiaid colegau, penaethiaid ysgolion a chyfarwyddwyr gwasanaethau proffesiynol yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn eu meysydd cyfrifoldeb, ac am sicrhau y caiff gofynion y polisi hwn eu hysbysu i staff a bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth.

Rhaid i ddirprwy is-gangellorion / penaethiaid colegau, penaethiaid ysgolion a chyfarwyddwyr gwasanaethau proffesiynol sicrhau y caiff yr holl aelodau staff newydd gyflwyniad i’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac y caiff aelodau staff perthnasol o fewn eu cylchoedd cyfrifoldeb gyrsiau gloywi ar gydymffurfio â rhyddid gwybodaeth (ar gael trwy gysylltu â'r Uned Datblygu Staff o fewn Adnoddau Dynol).

**[c] Cyfrifoldebau Staff**

Mae cydymffurfio â darpariaethau’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gofynion y polisi hwn yn gyfrifoldeb ar yr holl staff, ac mae’n ddyletswydd ar staff sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hymrwymiadau dan y ddeddf.

Mae canllawiau pellach ar ofynion y ddeddf a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r polisi hwn ar gael gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol neu ar dudalennau gwe Swyddfa'r Is-ganghellor.

**[d] Contractwyr, Staff Achlysurol a Staff Gwirfoddol**

Rhaid i ddirprwy is-gangellorion / penaethiaid colegau, penaethiaid ysgolion a chyfarwyddwyr gwasanaethau proffesiynol, sy'n cyflogi contractwyr, staff achlysurol neu wirfoddol, sicrhau bod yr unigolion hyn yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau dan y ddeddf a gofynion y polisi hwn.

Os yw'n ymarferol, dylid mewnosod cymal rhyddid gwybodaeth safonol y brifysgol (sydd wedi ei gynnwys fel atodiad i'r polisi hwn) ym mhob contract prifysgol.

**3. Cynllun Cyhoeddi’r Brifysgol**

Swyddog Rhyddid Gwybodaeth y brifysgol sy’n gyfrifol am sicrhau bod cynllun cyhoeddi’r brifysgol yn cydymffurfio â gofynion Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth a’i fod yn cael ei ddiweddaru a’i adolygu’n rheolaidd. Mae cynllun cyhoeddi’r brifysgol ar gael ar wefan y brifysgol.

Mae Prifysgol Bangor wedi mabwysiadu cynllun cyhoeddi enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth wrth lunio ei chynllun cyhoeddi.

Yn y cynllun cyhoeddi nodir:

- pa wybodaeth y bydd y brifysgol yn ei darparu’n gyffredinol i’r cyhoedd fel mater o drefn
- sut y bydd yn gwneud hynny, a
- a fydd y wybodaeth hon ar gael yn rhad ac am ddim ynteu a godir tâl amdani.

## 4. Ceisiadau Penodol am Wybodaeth

Gellir cael mynediad at wybodaeth sydd yn nwylo’r brifysgol ond nad yw ar gael yng nghynllun cyhoeddi’r brifysgol trwy wneud cais penodol am wybodaeth. Yn hyn o beth mae’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn sefydlu dau hawl sy’n gysylltiedig â’i gilydd:

- yr hawl i gael gwybod p’un a yw’r wybodaeth yn bodoli ai peidio, ac
- yr hawl i dderbyn y wybodaeth (yn amodol ar eithriadau)

Gall unrhyw un yn y byd ddefnyddio’r hawliau hyn. Y Cynorthwyydd Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth ar ran Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fydd yn ymdrin â’r ceisiadau penodol hyn am wybodaeth nad yw wedi ei chynnwys yn y cynllun cyhoeddi.

Rhaid gwneud unrhyw gais ar ffurf barhaol (er enghraifft yn ysgrifenedig neu drwy e-bost) a gellir codi tâl am ymdrin ag unrhyw gais, fodd bynnag, caiff hyn ei hysbysu i'r sawl sy’n gwneud y cais yn gynnar yn y broses a bydd y Cynorthwyydd Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth yn cynnig cyngor ac arweiniad i gynorthwyo'r sawl sy’n gwneud y cais i wneud cais, a gellir gwneud hyn yn rhad ac am ddim. Ni fydd hawl gan rai sy'n gwneud cais i dderbyn gwybodaeth sydd wedi ei heithrio dan y ddeddf. Fodd bynnag, dim ond y darnau penodol hynny o wybodaeth sydd wedi eu heithrio a gânt eu dal yn ôl, a chaiff gwybodaeth sy'n cael ei heithrio ei hadolygu o bryd i'w gilydd gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, mewn trafodaeth â’r uwch swyddog perthnasol.

Mae’n rhaid i’r brifysgol ymateb i unrhyw gais o fewn 20 diwrnod gwaith, er y gellir gofyn am fanylion pellach rhesymol er mwyn nodi’r wybodaeth a dod o hyd iddi. Os gofynnir am ffi caiff y cyfnod o 20 diwrnod gwaith ei ymestyn i hyd at 3 mis hyd nes caiff y ffi ei thalu.

## 5. Y Broses Apelio

[a] Mae'r cod ymarfer a gyhoeddwyd dan Adran 45 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi trefn apelio ar waith i sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu galw am adolygiad mewnol os nad ydynt yn fodlon ar y ffordd y mae'r awdurdod cyhoeddus wedi ymdrin â'u cais.

[b] Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, rhaid cyflwyno cais am apêl o fewn dau fis i ymateb terfynol y brifysgol i gais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Dylid gwneud cais am apêl, yn y lle cyntaf i info-compliance@bangor.ac.uk, pan fydd aelod staff yn trafod yr apêl gyda Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol ac yn gwneud penderfyniad ynghylch a chaiff yr apêl ei thrin gan uwch aelod staff nad yw eisoes yn meddu ar wybodaeth am y cais (fel arfer Ysgrifennydd y Brifysgol, fodd bynnag gall unrhyw aelod o'r Bwrdd Gweithredol nad yw eisoes yn meddu ar wybodaeth am y cais weithredu yn y swyddogaeth hon). Ar ôl i'r cais am apêl gael ei dderbyn bydd y sawl sy'n gwneud y cais yn derbyn cydnabyddiaeth ac yn cael syniad o ba bryd y gall ddisgwyl cael ymateb.

[c] Bydd adolygiadau mewnol yn ystyried y wybodaeth a ryddhawyd a’i chymharu â’r wybodaeth y gofynnwyd amdani ac yn cynnal adolygiad o'r papurau sy'n gysylltiedig â'r cais gwreiddiol, gall hyn gynnwys trafod y penderfyniad gwreiddiol gydag aelodau staff a oedd yn ymwneud â'r cais.

[e] Yn unol ag argymhellion yr Adran dros Faterion Cyfansoddiadol, mae'r brifysgol yn anelu at ddelio â cheisiadau syml am apêl cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y cais, tra'n anelu at ddelio ag adolygiadau mwy cymhleth, megis ailystyried y prawf budd cyhoeddus, cyn pen 40

diwrnod gwaith ar ôl derbyn y gŵyn. Rhoddir gwybod i'r sawl sy'n gwneud y cais os rhagwelir y bydd yr apêl yn cymryd mwy nag 20 diwrnod gwaith.

Os yw ymgeiswyr yn anfodlon â chanlyniad y drefn gwyno, gallant ofyn am arolwg annibynnol gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

**6. Ffioedd**

Oni nodir fel arall, ni chodir tâl am wybodaeth a ddarperir trwy gynllun cyhoeddi'r brifysgol.

Yn unol â'r ddeddf, mae'r brifysgol yn cadw'r hawl i godi ffi am ddelio â chais am wybodaeth nad yw wedi ei rhestru yn y cynllun cyhoeddi, os yw'n debygol y bydd y cais yn cymryd mwy na 2.5 diwrnod i ddod o hyd i'r dogfennau, eu didoli a'u golygu (cost o £450 wedi ei gyfrifo'n seiliedig ar £25 yr awr). Fodd bynnag, mewn achosion pan fydd rhaid codi ffi, bydd y brifysgol yn cynnig cyngor ac arweiniad yn y lle cyntaf.

**7. Eithriadau dan y Ddeddf**

Gall y brifysgol benderfynu fod rhai mathau o wybodaeth sydd ganddi yn wybodaeth wedi ei heithrio dan y ddeddf. Os gwneir cais am wybodaeth sy'n cynnwys eithriadau, bydd y brifysgol yn ystyried y prawf rhagfarn a phrawf lles y cyhoedd ac, mewn rhai amgylchiadau, gall beidio â datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Ceir 23 o eithriadau dan y ddeddf. Gyda rhai eithriadau, gellir ystyried a ddylid datgelu'r wybodaeth er budd y cyhoedd, tra bo eraill yn eithriadau llwyr. Ceir y rhestr lawn o eithriadau yn Atodiad 1 y polisi hwn.

**8. Cysylltiadau**

**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Enwebedig**
Swyddfa'r Is-ganghellor
Prifysgol Bangor
Ffordd y Coleg
Bangor
Gwynedd LL57 2DG

Ffôn (01248) 38 2413
E-bost: info-compliance@bangor.ac.uk

**ATODIAD 1**

Rhestr eithriadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

**A.** **Eithriadau y mae prawf budd y cyhoedd yn berthnasol iddynt:**

**s22** Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol
**s24** Diogelwch cenedlaethol.
**s26** Amddiffyn
**s27** Cysylltiadau rhyngwladol
**s28** Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig
**s29** Yr economi
**s30** Ymchwiliadau a thrafodion a gynhaliwyd gan awdurdodau cyhoeddus
**s31** Cyrff gweithredu'r gyfraith
**s33** Swyddogaethau archwilio
**s35** Llunio polisïau'r llywodraeth, etc.
**s36** Niweidiol i gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol (ac eithrio gwybodaeth a ddelir gan Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi)
**s37** Cyfathrebiadau â'i Mawrhydi, etc., ac anrhydeddau
**s38** Iechyd a Diogelwch
**s39** Gwybodaeth amgylcheddol
**s40** Gwybodaeth bersonol (dim ond os yw'r wybodaeth yn ymwneud â thrydydd parti a bod rhybudd s.10 dan Ddeddf Diogelu Data 1998 yn berthnasol i'r wybodaeth honno)
**s42** Braint broffesiynol gyfreithiol
**s43** Buddiannau masnachol

**B** Yr eithriadau llwyr

Os yw'r eithriadau hyn yn berthnasol, nid oes rhaid mynd ymlaen i ystyried a yw'r datgeliad er lles y cyhoedd ai peidio.

**s21** Gwybodaeth y gall ymgeiswyr ei chael trwy ddulliau eraill
**s23** Gwybodaeth a ddarparwyd gan gyrff sy'n ymwneud â diogelwch neu sy'n gysylltiedig â'r cyrff hynny
**s32** Cofnodion llysoedd, etc.
**s34** Seneddol
**s36** Niweidiol i gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol (dim ond yn berthnasol i wybodaeth a ddelir gan Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi)
**s40** Gwybodaeth bersonol (lle mae'r ymgeisydd yn wrthrych y wybodaeth)
**s41** Gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol
**s44** Gwaharddiadau ar ddatgelu os gwaherddir datgelu gan ddeddfiad neu os byddai'n cael ei ystyried yn achos o ddirmygu llys

**Atodiad 2**

**Cymal Rhyddid Gwybodaeth Prifysgol Bangor**

Diffiniadau
Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd);
Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd);

Cymalau

1. Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Rhyddid Gwybodaeth

1.1 Mae'r cwmni'n cydnabod bod y brifysgol yn dod dan ofynion y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a bydd yn cynorthwyo a chydweithio gyda'r brifysgol i'w galluogi i gydymffurfio ag unrhyw ofynion datgelu gwybodaeth.

1.2 Pan fydd y brifysgol yn cael cais i ddatgelu unrhyw wybodaeth sydd, yn ôl y cytundeb hwn, yn wybodaeth gyfrinachol y cwmni, bydd yn hysbysu'r cwmni ac yn ymgynghori â'r cwmni. Bydd y cwmni yn ymateb i'r brifysgol cyn pen 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn rhybudd y brifysgol am y cais. Os digwydd i'r cwmni beidio ag ymateb o fewn y cyfnod sydd yn ofynnol, ceidw'r brifysgol yr hawl i ddatgelu unrhyw wybodaeth o'r fath y tybia ei bod yn briodol i'w datgelu.

1.3 Bydd y brifysgol yn gyfrifol am benderfynu, yn ôl ei doethineb llwyr ei hun, p'un a yw'r wybodaeth:

1.3.1 wedi ei heithrio rhag ei datgelu yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;

1.3.2 i'w datgelu mewn ymateb i gais am wybodaeth dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac ni fydd y cwmni dan unrhyw amgylchiadau yn ymateb yn uniongyrchol i gais am wybodaeth oni chaiff ei awdurdodi'n benodol i wneud hynny gan y brifysgol.

1.4 Mae'r cwmni'n cydnabod y gall y brifysgol fod dan orfodaeth dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i ddatgelu gwybodaeth ar ôl ymgynghori â'r cwmni ac ystyried ei farn.